

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2020/21

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Glyn Haynes

Parti: Caergybi

Ward: Caergybi

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	Cofnod Presenoldeb
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	
Pwyllgor Grantiau Cyffredinol	
Pwyllgor Penodiadau	
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	
Pwyllgor Trwyddedu	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
- Cyngor Iechyd Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn)	Cyngor Iechyd Cymunedol – Dyma'r llais annibynnol ar gyfer pobl yng Nghymru sy'n defnyddio Gwasanaethau'r GIG. Rydym yn gweithredu er mwyn gwarchod y cyhoedd drwy fynychu cyfarfodydd

<p>- Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Llanfawr, Caergybi</p>	<p>misol a cyfarfodydd chwarterol a drwy adrodd yn ôl ar ymweliadau ag ysbytai, meddygfeydd a sefydliadau eraill.</p> <p>Ysgol Gynradd Llanfawr – Rwy'n chwarae rôl actif fel Llywodraethwr Ysgol gan fynychu cyfarfodydd, cyfweld staff newydd a gweithio fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol.</p>
---	---

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

O ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau mae'r gwaith o wasanaethu trigolion yn y modd 'arferol' a delio â materion sy'n codi wedi bod yn wahanol iawn. Rydw i wedi cyfarfod â thrigolion yn bersonol lle mae hynny wedi bod yn bosib a hynny gan gadw pellter cymdeithasol er mwyn i mi allu gwrandao ar eu problemau ond rydw i wedi gweithio yn bennaf drwy e-bost a dros y ffôn gan nad ydym wedi cael mynychu swyddfeydd y Cyngor Sir. Mae hyn wedi gwneud pethau'n anoddach ond mae wedi bod yn broses o ddysgu ar gyfer staff swyddfa a chynghorwyr wrth geisio adnabod a chefnogi anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydw i hefyd yn cyfuno fy rôl fel Cynghorydd Sir gyda'r rôl o Gynghorydd Cyngor Tref.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Mae Covid-19 wedi cyfyngu ar lawer y byddem yn ymwneud ag ef fel arfer fel Cynghorwyr Sir, mae digwyddiadau y byddem yn eu mynychu neu fentrau o weithio â phartneriaid cymunedol wedi mynd i drywydd hollol wahanol. Rydw i wedi cofrestru ac wedi bod yn gweithio o fewn y gymuned fel gwirfoddolwr Covid-19 lle maw hynny'n bosibl er mwyn cefnogi'r rhai hynny sydd wedi bod yn hunan ynysu neu sydd angen cymorth.

Rydw i hefyd wedi bod yn ymgysylltu a neuadd Gymunedol Llaingoch sydd wedi prynu 6 tabled electronig ac offer pellach er mwyn cynorthwyo'r gwaith o sefydlu Canolfan Ddysgu er mwyn uwchraddio sgiliau'r gymuned leol o ran sgiliau TG er mwyn iddynt allu ehangu eu gorwelion a chyfathrebu â'u teulu a'u ffrindiau yn ystod y cyfnod clo. Rydw i hefyd wedi casglu arian er mwyn gallu prynu teledu 55" modfedd ynghyd â radios DAB ar gyfer cleifion wardiau Ysbyty Penrhos Stanley yn ystod y cyfnod Covid ac fe gyflwynais y rhoddion i'r Ysbyty cyn y Nadolig.

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): [Hyfforddiant](#)

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: [Cyngorydd Glyn Haynes](#)

Cyngorydd Glyn Haynes	Mehfin 2021
------------------------------	--------------------